

## **Cystadleuaeth 367 – Barddoniaeth dan 19 oed – Gyrru**

### **Beirniad – Leusa Llewelyn**

Dim ond tri bardd sydd wedi gyrru eu cerddi am y testun Gyrru i'r gystadleuaeth hon. Yn drydydd gosodaf Dennis Kenna sy'n defnyddio techneg deialog sinistr rhwng y storïwr sy'n aros ei ffawd erchyll a Duw. Er yn creu darluniau iasol, dydi'r gerdd ddim yn llifo'n rhwydd ac mae'n anodd braidd gwybod beth sy'n digwydd yma – mae'r bardd yn glyfrach na mi. Yn ail y daw Dawan am ei cherdd sy'n mynd â'r darllenydd ar daith yn y car i ddianc rhag rhywbeth neu rhywle, wrth i'w meddwl hefyd grwydro'n ddi-baid. Hoffwn awgrymu wrth Dawan y dylai arbrofi gydag iaith bob dydd yn ei cherddi, ac ystyried osgoi gor-ddefnyddio geiriau cymhleth fel "cydnawsu", "cyfaneddu" ac "enbydrwydd". Mae'r syml yn amlach yn brydferthach na'r blodeuog.

Ond ben ag ysgwydd uwchlaw'r lleill ac felly'n haeddu'r wobr gyntaf a chanmoliaeth y mae Branwen gyda'i cherdd am farwolaeth 225 o ddrudwyod yn Sir Fôn. Drwy gyfres o drosiadau trawiadol gwêl y bardd yr adar uwch ei phen wrth yrru, "Eu dawns olaf a welais i" meddai, cyn i'r adar ddisgyn i'r llawr a "gwlychu'r llawr \ fel dafnau glaw". Yr unig feirniadaeth yw'r defnydd o'r gair "mesmereiddio" – rwy'n siŵr fod gair harddach yn bod! Bardd talentog iawn sy'n amlwg â dyfodol disglair yn y byd barddol o'i blaen.